**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**

**MAP A DATGANIAD DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**(YCHWANEGU LLWYBR TROED O DALE VIEW, CEFN CRIBWR I LWYBR 40 CEFN CRIBWR)**

**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL RHIF. 1 2025**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod") o dan Adran 53(2)(b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r awdurdod hwnnw fod angen addasu Map a Datganiad Diffiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i ddigwyddiad a bennir yn Adran 53(3)(b) o'r Ddeddf, sef, mewn perthynas ag unrhyw lwybr yn yr ardal y mae'r map yn berthnasol iddi, diwedd unrhyw gyfnod y mae mwynhad y cyhoedd o'r llwybr yn ystod y cyfnod hwnnw yn creu rhagdybiaeth bod y llwybr wedi'i ddynodi'n llwybr cyhoeddus.

Mae'r awdurdod wedi ymgynghori â phob awdurdod lleol y mae ei ardal yn cynnwys y tir y mae'r gorchymyn yn berthnasol iddo. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy hyn yn gorchymyn y canlynol:

1. I ddibenion y Gorchymyn hwn, y dyddiad perthnasol yw dyddiad gwneud y Gorchymyn.

2. Bydd Map a Datganiad Diffiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu haddasu fel y disgrifir yn Rhan I a Rhan II o'r Atodlen, a'u dangos ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y caiff ei gadarnhau a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Addasu Map Diffiniol Rhif 2 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ychwanegu Llwybr Troed o Dale View, Cefn Cribwr at Lwybr Troed 40 Cefn Cribwr) Rhif 1 2025

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR BWRDEISTREF** )
**PEN-Y-BONT AR OGWR** )
yma ar y dydd )
o 2025 )
Ym mhresenoldeb:- )

LLOFNODWR AWDURDODEDIG
Mae **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt yn hynny o beth, drwy hyn yn cadarnhau'r gorchymyn hwn:

CADARNHEIR Y GORCHYMYN HWN FEL GORCHYMYN DIWRTHWYNEBIAD

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR** )
yma ar y diwrnod o 2025 ym mhresenoldeb )
Llofnodwr Awdurdodedig: ……………………………………. )

## ATODLEN
## RHAN I

### Addasu Map Diffiniol
### Disgrifiad o'r llwybr neu'r ffordd i'w (h)ychwanegu

Mae'r llwybr troed yn cychwyn o'r gyffordd â'r briffordd a gynhelir ger Dale View, Cefn Cribwr, Pwynt A (Cyfeirnod Grid SS 86418273), ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am tua 34 metr at ei gyffordd â Llwybr 40 Cefn Cribwr ym Mhwynt B (Cyfeirnod Grid SS 86378275). Cyfanswm hyd y llwybr troed fydd tua 34 metr.

Mae lled y llwybr troed yn amrywio ac yn cynyddu o 1.4 metr yn ei ben dwyreiniol i 1.9 metr yn ei ben gorllewinol, ac wedi'i ddiffinio gan derfynau Rhifau 28 a 29 Dale View sy’n ffinio â’r llwybr ac a ddangosir rhwng pwyntiau A-B ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn

Lled – 1.2 – 1.9 metr fel y’i diffinnir gan derfynau Rhifau. 28 a 29 Dale View sy'n ffinio â'r llwybr

Hyd - 34 metr

## RHAN II


### ADDASU DATGANIAD DIFFINIOL
### NEWID MANYLION LLWYBR NEU FFORDD

Mae'r llwybr troed yn cychwyn o'r gyffordd â'r briffordd a gynhelir ger Dale View, Cefn Cribwr yng Nghyfeirnod Grid SS 86418273, ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am tua 34 metr at ei gyffordd â Llwybr 40 Cefn Cribwr yng Nghyfeirnod Grid SS 86378275. Cyfanswm hyd y llwybr troed fydd tua 34 metr.

Lled – 1.2 – 1.9 metr fel y’i diffinnir gan derfynau Rhifau. 28 a 29 Dale View sy'n ffinio â'r llwybr

Hyd - 34 metr




# THE BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL (ADDITION OF FOOTPATH LEADING FROM DALE VIEW, CEFN CRIBWR TO FOOTPATH 40 CEFN CRIBWR) DEFINITIVE MAP MODIFICATION ORDER NO. 1 2025

**KEY**

Footpath to be added (A-B)

— — — — — — — —

Scale 1:750

N
W E
S


Janine Nightingale
Corporate Director - Communities
Communities Directorate

Bridgend County Borough Council,
Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend,
CF31 4WB



©Crown Copyright and database right 2024. Ordnance Survey AC0000851951.
©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2024. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951.
Aerial Imagery: Cities Revealed aerial photography copyright The GeoInformation Group 2011. Copyright Getmapping plc.
Countryside Council for Wales, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100018813.
Forestry Commission, ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100025498.

**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(YCHWANEGU LLWYBR TROED O DALE VIEW,**
**CEFN CRIBWR AT LWYBR 40 CEFN CRIBWR)**
**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL RHIF 1 2025**

K Watson,
Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol,
Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Y Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB.

Cyf Cyfreithiol: HIG001-1108/A763/1/291